

Dyddiad lansio gwefan newydd Ceisiadau Cynllunio Cymru a chael mynediad i'ch cyfrif – angen gweithredu

**Mae'r ohebiaeth hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg  
This communication is provided in Welsh and English**

Fel y gwnaethom ei nodi yn yr e-bost diwethaf, byddwn yn lansio gwasanaeth ceisiadau cynllunio ar-lein newydd yn fuan i'n cwsmeriaid ac, fel defnyddiwr Ceisiadau Cynllunio Cymru (<https://1app.planningapplications.gov.wales/>), hoffem roi gwybod i chi beth fydd y newid yn ei olygu i chi ar y diwrnod cyntaf. Treuliwch ychydig funudau yn darllen yr e-bost hwn i ddeall unrhyw gamau y gall fod angen i chi eu cymryd.

Mae'n braf gennym gadarnhau y bydd gwefan newydd Ceisiadau Cynllunio Cymru ar gael ar **31 Ionawr 2022**. Er mwyn rhoi'r wefan newydd ar waith, ni fydd Ceisiadau Cynllunio Cymru ar gael rhwng **17:00 ar 28 Ionawr a 9:00 ar 31 Ionawr**.

Yn dilyn y lansiad, byddwch yn gallu defnyddio'r holl swyddogaethau a chyfleusterau rydych yn gyfarwydd â nhw a rhai newydd, sy'n edrych ac yn teimlo'n wahanol.

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR), dim ond cyfrifon, ceisiadau a dogfennau a gyrchwyd, a grëwyd neu a ddiweddarwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf y byddwn yn eu symud. Mae ceisiadau sydd wedi cael eu cyflwyno wedi cael eu trosglwyddo i'r Awdurdod Lleol perthnasol er mwyn penderfynu arnynt ac mae angen iddo gadw copi ar ei gofrestr gyhoeddus. Ni fydd y polisi cadw data yn effeithio arnynt.

Yn yr e-bost diwethaf gwnaethom amlinellu'r camau i chi eu cymryd er mwyn sicrhau bod eich cyfrif yn cael ei gadw os nad ydych wedi ei ddefnyddio'n ddiweddar a sut y gallwch barhau i gael gafael ar eich ceisiadau os cawsant eu llunio dros ddwy flynedd yn ôl. Mae amser ar ôl o hyd, oherwydd rydym wedi ymestyn y dyddiad cau i 28 Ionawr.

Sicrhewch eich bod yn dilyn y camau isod sy'n berthnasol i chi er mwyn mewngofnodi i'ch cyfrif a chyrchu ceisiadau yn hawdd unwaith y bydd y gwasanaeth newydd ar gael.

Os nad oes angen i chi allu mewngofnodi i'ch cyfrif mwyach, yna nid oes angen i chi gymryd unrhyw gamau pellach.

Os bydd angen rhagor o gymorth arnoch, ewch i'r adran help ar wefan Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/cymorth-defnyddio-ceisiadau-cynllunio-cymru>

**Ceisiadau Cynllunio Cymru yw'r gwasanaeth ceisiadau cynllunio ar-lein a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ac a gaiff ei gyflwyno a'i gefnogi gan y [Planning Portal](#).**

## Cwestiynau Cyffredin am wasanaeth newydd Ceisiadau Cynllunio Cymru

### **Pam rydych yn cadw fy nata am ddwy flynedd?**

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR), dim ond gwybodaeth a gyrchwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf y byddwn yn ei symud. Dylai'r holl wybodaeth bersonol, heblaw gofynion cyfreithiol, gael ei dileu os nad oes ei hangen mwyach.

Rydym yn adolygu ein polisiau yn gyson ac, yn sgil hyn, rydym wedi diwygio ein polisi cadw data yn unol â'r GDPR gan newid y cyfnod cadw o bedair blynedd i ddwy flynedd.

Os bydd angen cymorth pellach arnoch, ewch i Ceisiadau Cynllunio Cymru <https://llyw.cymru/cymorth-defnyddio-ceisiadau-cynllunio-cymru>.

### **Sut y gallaf gadw copi o fy nghais a grëwyd dros ddwy flynedd yn ôl?**

#### **Ar gyfer ceisiadau drafft**

Mewngofnodwch i'ch cyfrif Planning Portal, agorwch y cais. Gwnewch newid i'r cais. Bydd hyn yn cadw'r newid a bydd ein system yn nodi ei fod yn gais a gyrchwyd yn ddiweddar.

Ar gyfer ceisiadau a gyflwynwyd, a drosglwyddwyd neu a archifwyd.

I gadw copi o gais a gyflwynwyd dros ddwy flynedd yn ôl, bydd angen i chi fynd i'r tab 'Trosglwyddwyd' ar eich tudalen 'Fy Ngheisiadau' a chlicio ar 'Lawrlwytho' er mwyn cadw copi all-lein.

Os yw eich cais yn eich rhestr 'Archifwyd', bydd angen i chi ei ddadarchifo er mwyn lawrlwytho copi o'r cais llawn, gan gynnwys dogfennau ategol.

Noder na fydd lawrlwytho, (dad)archifo nac agor cais i'w ddiwygio heb wneud newid yn cyfrif fel addasiad i'r cais.

Peidiwch â diwygio eich cais oni bai eich bod yn bwriadu ailgyflwyno newidiadau i'r Cyngor.

Os bydd angen cymorth pellach arnoch, ewch i Ceisiadau Cynllunio Cymru <https://llyw.cymru/cymorth-defnyddio-ceisiadau-cynllunio-cymru>.

## **Sut y gallaf lawrlwytho cais i'w gadw fel cofnod?**

### **Ceisiadau a gyflwynwyd**

Gallwch lawrlwytho copïau llawn o geisiadau a gyflwynwyd drwy eich cyfrif Planning Portal. Mewngofnodwch i'ch cyfrif yma:

<https://auth.planningapplications.gov.wales/account/signin>

Ewch i'r dudalen 'Gwneud cais ar-lein' a sgroliwch i lawr i'r adran 'Fy Ngheisiadau'.

Pan fyddwch wedi'i chyrraedd, dewiswch y tab 'Trosglwyddwyd' er mwyn dod o hyd i'ch cais.

Wrth ymyl eich cais ar yr ochr dde o dan y golofn 'Camau Gweithredu', bydd opsiwn i 'Lawrlwytho'. Cliciwch ar y ddolen a dilynwch y cyfarwyddiadau.

Os byddwch wedi archifo ceisiadau ac am eu lawrlwytho, bydd angen i chi ddewis y tab 'Archifwyd' a fydd yn cyflwyno rhestr o'r ceisiadau hyn.

Wrth ymyl eich cais ar yr ochr dde o dan y golofn 'Camau Gweithredu', bydd opsiwn 'Dadarchifo'. Cliciwch ar y ddolen a fydd yn symud eich cais yn ôl i'r tab 'Trosglwyddwyd'. Cliciwch ar y tab 'Trosglwyddwyd' wrth ymyl eich cais ar yr ochr dde o

dan y golofn 'Camau Gweithredu', bydd opsiwn i 'Lawrlwytho'. Cliciwch ar y ddolen a dilynwch y cyfarwyddiadau.

### **Ceisiadau drafft**

Gallwch lawrlwytho ac argraffu ffurflenni cais drafft o'ch cyfrif. Mae'r fersiwn hon o ffurflen ddrafft yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais.

Er mwyn allforio neu argraffu cais drafft, gallwch fewngofnodi i'ch cyfrif a mynd i'r adran 'Fy Ngheisiadau'. O'r fan hon, cliciwch ar enw'r cais yr hoffech ei argraffu neu ei allforio.

Ar y sgrin nesaf, byddwch yn gweld blwch sy'n cynnwys manylion y cais a blwch sy'n dangos statws cwblhau'r cais. Sgrolwch i lawr y dudalen hon nes i chi gyrraedd blwch o'r enw 'Lawrlwytho Ffurflen'. Yn y blwch hwn, cliciwch ar y geiriau 'lawrlwytho ffurflen'.

Os bydd angen cymorth pellach arnoch, ewch i Ceisiadau Cynllunio Cymru <https://llyw.cymru/cymorth-defnyddio-ceisiadau-cynllunio-cymru>.

## **Sut y gallaf ailosod fy nghyfrinair?**

Os byddwch wedi anghofio eich cyfrinair, gallwch ei ailosod drwy ddilyn y broses wedi anghofio cyfrinair.

Cliciwch ar y ddolen 'mewngofnodi' yng nghornel chwith uchaf y sgrin, dewiswch y ddolen 'Wedi anghofio cyfrinair?' a nodwch y cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd gennych i gofrestru eich cyfrif.

Caiff eich cyfrinair ei ailosod yn awtomatig a'i anfon atoch drwy e-bost. Bydd y cyfrinair wedi'i ailosod yn cynnwys cyfres o lythrennau a rhifau lle mae llythrennau bach/mawr o bwys. Felly, rydym yn argymhell yn gryf, pan fyddwch yn mewngofnodi gyntaf, eich bod yn torri ac yn gludo eich cyfrinair yn y maes cyfrinair er mwyn osgoi unrhyw wallau.

Os na fyddwch wedi cael y neges e-bost gyda'r cyfrinair dros dro, edrychwch yn eich ffolderi sothach neu sbam. Os na fyddwch wedi cael y neges o hyd, cysylltwch â'r ddesg gymorth a byddwn yn ei osod ar eich rhan.

Os bydd angen cymorth pellach arnoch, ewch i Ceisiadau Cynllunio Cymru <https://llyw.cymru/cymorth-defnyddio-ceisiadau-cynllunio-cymru>.

## **Rwy'n cael trafferth wrth greu cyfrinair**

Wrth greu cyfrinair newydd ar safle Ceisiadau Cynllunio Cymru, rhaid iddo fodloni'r meini prawf ar gyfer greu cyfrinair:

- Rhaid i'r cyfrinair fod rhwng 8 a 50 nod o hyd
- Rhaid iddo gynnwys cymysgedd o briflythrennau a llythrennau bach
- Rhaid iddo gynnwys o leiaf un nod nad yw'n rhan o'r wyddor
- Ni ddylai gynnwys unrhyw eiriau a/neu ddilyniannau rhifol cyffredin.

Os ydych yn defnyddio geiriau cyffredin ac yn ei chael hi'n anodd greu cyfrinair, ceisiwch ddefnyddio nodau arbennig yn lle nodau alffaniwmerig.

Pan fyddwch wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer greu cyfrinair, bydd tic gwyrdd yn ymddangos o dan y maes gan nodi bod y cyfrinair a ddewiswyd gennych yn ddilys. Yn ogystal, ar y dudalen mewngofnodi anghofio cyfrinair, byddwch yn gallu clicio ar yr eicon llygad yn y maes cyfrinair newydd er mwyn gweld beth rydych yn ei deipio.

Wedyn, bydd angen i chi ailgofnodi'r union gyfrinair hwn yn y maes nesaf. Nodwch na fyddwch yn gallu defnyddio dull torri a gludo o'r maes creu cyfrinair i'r maes cadarnhau neu ailgofnodi cyfrinair.

Os bydd angen cymorth pellach arnoch, ewch i Ceisiadau Cynllunio Cymru <https://llyw.cymru/cymorth-defnyddio-ceisiadau-cynllunio-cymru>.

## **Sut mae newid fy nghyfrinair ar y gwasanaeth ceisiadau newydd?**

Pan fydd gwasanaeth newydd Ceisiadau Cynllunio Cymru wedi'i lansio a'ch bod yn mewngofnodi am y tro cyntaf, bydd angen i chi newid eich cyfrinair, gosod cwestiwn diogelwch a diweddarau'r wybodaeth am eich cyfrif.

**Pan fydd gwefan newydd y Planning Portal wedi'i lansio ar 31 Ionawr**, Dilynwch y camau isod i newid eich cyfrinair a diweddarau eich manylion:

- Dilynwch y ddolen hon i newid eich cyfrinair <https://1app.planningapplications.gov.wales/app/first-login>  
**Nodwch: ni fydd y ddolen hon yn gweithio tan 31 Ionawr**
- Yn gyntaf bydd angen i'r system ddilysu eich cyfeiriad e-bost. Nodwch eich cyfeiriad e-bost sy'n gysylltiedig â chyfrif Ceisiadau Cynllunio Cymru, sef y cyfeiriad e-bost rydych yn ei ddefnyddio i fewngofnodi ar hyn o bryd.
- Dewiswch 'Anfon e-bost dilysu'. Caiff cod ei anfon atoch drwy e-bost. Os na allwch ddod o hyd i'r e-bost, edrychwch yn eich ffolder sbam/sothach cyn cysylltu â ni.
- Teipiwch y cod dilysu a roddir yn yr e-bost yn y blwch ar wefan Ceisiadau Cynllunio Cymru, ac yna dewiswch 'Dilysu'r cod'.
- Dewiswch 'Parhau' ar y sgrin dilysu llwyddiannus.
- Ewch ati i greu cyfrinair newydd a'i gadarnhau drwy aildeipio eich cyfrinair newydd yn y blwch a ddarperir.

### **Gofynion ar gyfer cyfrinair:**

- O leiaf 8 nod (dim mwy na 64)
- O leiaf 1 briflythyren
- Lythrennau bach
- Rhifau (0-9)
- Dewiswch 'Creu cyfrinair'
- Mewngofnodwch gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair newydd sbon



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Nesaf, byddwch yn gweld sgrin golygu proffil. Yma bydd angen i chi ddiweddarau unrhyw wybodaeth lle bo angen, dewis y math o gyfrif a gosod cwestiwn diogelwch.

Pan fyddwch wedi gorffen dewiswch 'Cadw'r newidiadau' a chewch eich tywys i dudalen Fy ngheisiadau y gwasanaeth newydd.

Os bydd angen help arnoch i newid eich cyfrinair cysylltwch â'n desg gwasanaeth drwy e-bostio [cymorthsupport@planningportal.co.uk](mailto:cymorthsupport@planningportal.co.uk).



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Your Planning Applications Wales account – action required

Dear Planning Applications Wales customer,

As we mentioned in our last email, we will soon be launching a new online planning application service to our customers, and as a user of the Planning Applications Wales (<https://1app.planningapplications.gov.wales/>), we'd like to let you know what the change will mean for you on day one. Please take a few minutes to read this email and understand any action you may need to take.

We are pleased to confirm that the new Planning Applications Wales site will be available on **31 January 2022**. In order to deploy the new website, Planning Applications Wales will be **unavailable from 17:00 on 28 January until 09:00 on 31 January**.

Following the launch, you will have access to all the functions and facilities you are familiar with and some new ones, with a new look and feel.

Read our guide to find out how to change your password on the new Planning Applications Wales website in the FAQ below.

To comply with the General Data Protection Regulations 2018 (GDPR), we will only move over accounts, applications, and documents that have been accessed, created, or updated in the last two years. Submitted applications have been transferred to the relevant Local Authority to be decided and they are required to hold a copy on their public registers. They will not be affected by the data retention policy.

In our last email we outlined the steps for you to take to ensure your account remains active if you haven't accessed it recently and how you can continue to access your applications if they are over two years old. There is still time, we have extended the deadline and you now have until **28 January** to do this.

**Please ensure you follow the steps below relevant to you to access your account and applications easily once the new service is available.**

If you no longer require access to your account, then you don't need to take any further action.

If you need further assistance, visit the help section on the Welsh Government Website. <https://gov.wales/get-help-using-planning-applications-wales>.

**Planning Applications Wales is the online planning application service provided by the Welsh Government, delivered and supported by the Planning Portal.**

## New Planning Applications Wales service FAQs

### **Why are you retaining my data for two years?**

To comply with key principles in the General Data Protection Regulations 2018 (GDPR), we will only move over information accessed in the last two years. All personal information should, legal requirements notwithstanding, be erased if no longer required.

We constantly review our policies and on the back of this have amended the GDPR data retention policy from four years to two years.

If you need further assistance, visit Planning Applications Wales. <https://gov.wales/get-help-using-planning-applications-wales>

### **How do I retain a copy of my application that is over two years old**

#### **For draft applications**

Log in to your Planning Portal account, open the application. Make a change to the application. This will save the change and our system will identify it as a recently accessed application.

#### **For submitted, transferred or archived applications**

To keep a copy of an application that was submitted two or more years ago, you will need to go to the 'Transferred' tab on your 'My Applications' page and click on 'Download' to save an offline copy.

If your application is in your 'Archived' list, you will need to unarchive it to download a copy of the full application, including supporting documents.

Please note that downloading, (un)archiving or opening an application for amendment without making a change will not count as a modification to the application.



Please do not make an amendment to your application, unless you intend to resubmit changes back to the council.

If you need further assistance, visit Planning Applications Wales <https://gov.wales/get-help-using-planning-applications-wales>.

## **How do I download an application to keep as a record?**

### **Submitted applications**

You can download full copies of submitted applications via your Planning Portal account. Simply log in to your account here:

<https://auth.planningapplications.gov.wales/account/signin>

Navigate to the 'Apply online' page and scroll down to the 'My Applications' section.

Once here, select the 'Transferred' tab, to locate your application.

Next to your application on the right-hand side under the 'Actions' column, there will be an option to 'Download'. Click the link and follow the prompts.

If you have archived applications and want to download them, you will need to select the 'Archive' tab that will present a list of these applications.

Next to your application on the right-hand side under the 'Actions' column, there will be an option to 'Unarchive'. Click the link which will return your application back to the 'Transferred' tab. Click on the 'Transferred' tab and next to your application on the right-hand side under the 'Actions' column, there will be an option to 'Download'. Click the link and follow the prompts.

### **Draft applications**

You can download and print draft application forms from your account. This version of a draft form holds all of the information relevant to your application.

To export or print a draft application, you can log into your account, navigate the 'My Applications' section. From there, click on the name of the application you would like to print or export.

On the next screen, you will see a box containing the application details and a box showing the application completion status. Scroll down this page, until you reach a box entitled 'Form Download'. In this box, click the words 'download form'.

If you need further assistance, visit Planning Applications Wales. <https://gov.wales/get-help-using-planning-applications-wales>

## **How do I reset my password on the current site?**

If you have forgotten your password, you can reset it by following the forgotten password process.

Simply click on the 'sign in' link at the top left of the screen, select the 'Forgotten password?' link and enter the email address that you used to register your account.

Your password will be automatically reset and sent to you by email. The reset password will be a series of letters and numbers that are case sensitive, therefore we strongly recommended that when you first log in, you cut and paste your password into the password field to prevent any errors.

If you have not received the temporary password email, please check your junk or spam folders. If you still haven't received this email, please contact the service desk and we will set it for you.

If you need further assistance, visit Planning Applications Wales <https://gov.wales/get-help-using-planning-applications-wales>.

## **I'm having trouble creating a password**

When creating a new password on the Planning Applications Wales site, it must meet the password creation criteria:

- The password must be between 8-50 characters in length
- It must be a mix of upper- and lower-case letters
- It must contain at least one non-alphabetic character
- It must not contain commonly used words and or numeric sequences.

If you are using common words and run into difficulties when trying to create a password, try replacing alphanumeric characters with special characters.

When you have met the password creation criteria a green tick will appear under the field indicating that your chosen password is valid. Additionally, on the forgotten password sign in page you will be able to click on the eye icon in the new password field to see what you are typing.

You then need to re-enter this password exactly in the next field. Please note, you won't be able to cut and paste from the create password field to the confirm or re-enter password field.

If you need further assistance, visit Planning Applications Wales <https://gov.wales/get-help-using-planning-applications-wales>.

## **How do I change my password on the new application service?**

Once the new Planning Applications Wales service has launched and you login for the first time, you will need to change your password, set a security question and update your account information.

**Once the new Planning Portal site has launched on 31 January,** Follow the steps below to change your current password and update your details:

- Follow this link to change your password  
<https://1app.planningapplications.gov.wales/app/first-login>  
**Please note: this link will not work until 31 January**
- First the system will need to verify your email address. Enter your email address associated to your Planning Applications Wales account, this will be the email address you currently use to log in.
- Select 'Send email verification'. A code will be emailed to you. If you cannot find the email, please check your spam/junk folder before contacting us.
- Type the verification code provided in the email into the box on the Planning Applications Wales website, then select 'Verify code'.
- Select 'Continue' on the verification success screen.
- Create a new password and confirm by retyping your new password in the box provided.

**Password requirements:**

- Minimum 8 characters (max 64)
- At least 1 uppercase character
- Lowercase characters
- Numbers (0-9)
- Select 'Create password'
- Log in using your email address and newly created password

Next, you will see an edit profile screen. Here you will need to update any information where required, select the account type and set a security question.

Once complete select 'Save changes' and you will be taken to your My applications page of the new service.

For help with changing your password please contact our service desk by emailing [cymorthsupport@planningportal.co.uk](mailto:cymorthsupport@planningportal.co.uk).